# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-01-08)

### SLC95

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahoddir i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân newidiadau i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004"). **Gweithdrefn: Negyddol** Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2. Mae testun Cymraeg rheoliad 2(2) yn awgrymu y dylid diwygio'r diffiniad o "cymwysterau allanol a gymeradwywyd" yn rheoliad 2(1) Rheoliadau 2004. Mewn gwirionedd y term a ddiffinnir yna yw "cymhwyster allanol a gymeradwywyd". Gan fod y bwriad yn glir, ni ystyrir bod angen cymryd unrhyw gamau cywiro mewn perthynas â'r gwall anffodus hwn. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]. Pan wneir mewnosodiad i ddarpariaeth sy'n bodoli, mae strwythurau gwahanol yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn aml yn achosi i'r diwygiadau beidio â bod yn gyfieithiadau uniongyrchol. Yn achos y diwygiad a wnaed gan reoliad 2(5) y Rheoliadau hyn, mae'n ymddangos mai'r bwriad oedd i'r mewnosodiad a wnaed yn y testun Saesneg fod wedi ei ddileu, yn cael ei ddilyn gan fewnosodiad yn y testun Cymraeg. Yn anffodus, mae'r geiriau "mewnosoder" a "dileer" yn dilyn ei gilydd fel eu bod yn groes i'w gilydd. Gan fod hyn yn rhan o'r cyfarwyddyd yn hytrach nag yn sylwedd y diwygiad i Reoliadau 2004, a bod y bwriad yn glir o'r testun Saesneg, ni ystyrir bod angen cymryd unrhyw gamau cywiro. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)].

Mae cynghorwyr cyfreithiol y Llywodraeth wedi nodi eu bod yn cytuno â'r pwyntiau uchod.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Ionawr 2008